Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 10fed o Ionawr 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer, Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Rebecca Butcher

Cof 241 / Ion / 18 Datganiadau o Fuddiant
Datganodd y Cyng. Colin Jenkins fuddiant yn yr eitem yn ymwneud â thalu Hallams am ddarparu byrddau i'r Cyngor. Arwyddodd ef y Llyfr Datganiadau o Fuddiant.

Cof 242 / Ion / 18 Cyfrifon i'w talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
Easy PC (cysylltiadau wi-fi)	£ 130.00		£ 130.00*
Hallams (byrddau)	£ 263.94	£ 52.79	£ 316.73*
Hugh Gwynne DD 645PP	£ 480.00	£ 96.00	£ 576.00*
Hugh Gwynne DD 604PLC	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
Hugh Gwynne DD604PP	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
D.Davies (inc i'r argraffydd) vis	£ 15.99		£ 15.99
D.Davies (batris) vis	£ 3.74	£ 0.75	£ 4.49
Dŵr Cymru (Neuadd y Sir) dd	£ 47.97		£ 47.97
Nwy Prydain (trydan Neuadd y Sir) dd	£ 39.22	£ 1.96	£ 41.18

*Bacs * Siec #

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Christoph Fischer, ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 243 / Ion / 18 Doedd dim Incwm a Dderbyniwyd ers, hyd yn hyn

Cof 244 / Ion / 18 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 09/01/18)	£ 31,027.06
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 09/01/18)	£ 1,958.25
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00

Cof 245 / Ion / 18 Materion Ariannol Eraill

1.Adroddiad ar y Gyllideb hyd at ddiwedd Rhagfyr (Ch3)
Roedd y Swyddog Cyllid wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Roedd yn cynnwys taenlen gyda holl wariant y Cyngor. Roedd y gyllideb Tân Gwyllt a'r gyllideb Goleuadau Nadolig wedi eu cofnodi ar wahân. Roedd cyfraniad y Clwb Bowls yn gofnod newydd.

Cafodd ffi'r cyfreithwyr, o £600, ei symud i'r gyllideb treuliau Swyddfa, sydd nawr yn £2,600.
Gofynnodd y Swyddog Cyllid i'r Pwyllgor i fod yn ymwybodol o'r ffaith y gallai costau'r goleuadau stryd godi, yn dilyn y weithred o Drosglwyddo Asedau Parc le Conquet.
Gofynnodd y Swyddog Cyllid am i'r Ficer gael ei atgoffa i wneud cais am y grant blynyddol i gynnal a chadw'r fynwent.

Cof 246 / Ion /18 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Hilary Jones, CSG, manylion am wobrau sydd ar gael i grwpiau cymunedol i gyflwyno sesiynau gweithgarwch corfforol newydd. Nodwyd.
2. Caryl Alban, Swyddog Digonolrwydd Chwarae CSG. Roedd Llywodraeth Cymru wedi clustnodi arian i ddatblygu cyfleoedd chwarae yn Sir Gaerfyrddin. Gellid gwneud cais am grantiau hyd at £5,000. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn cyflwyno cais am grant. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.
3. Marie Curie, llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor o £100. Nodwyd.

Cof 247 / Ion / 18 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Pwyllgor Cynllunio wedi argymell bod dyfynbris Hugh Gwynne, o £85, i symud defnyddiau'r Cyngor o islawr y Sefydliad i'r domen gwastraff cyhoeddus, yn cael ei dderbyn. Cynigwyd hyn gan y Cyng. Owen James, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace.

Cof 248 / Ion / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40yh.